

Darparwyr Gofal Plant: Cyngor ar sut i gael taliadau mewn pryd

Hoffwn gael taliad cyn gynted â phosibl – pryd yw'r amser gorau i hawlio ar y plattform?

Gallwch gyflwyno hawliadau am oriau gofal plant a ddarparwyd o dan y Cynnig Gofal Plant o 12:00 ymlaen bob dydd Gwener. Os ydych yn cyflwyno hawliad ar ddydd Gwener, gallwch ddisgwyl cael arian yn eich cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu enwebedig **bedwar diwrnod gwaith** yn ddiweddarach, yn amodol ar y gweithdrefnau clirio yn eich sefydliad ariannol eich hun

Rwy'n anghofio cyflwyno fy hawliad bob wythnos.....

Mae'r plattform wedi'i ddylunio i fod yn hyblyg. Gall darparwyr gofal plant gyflwyno hawliadau mor aml ag unwaith yr wythnos ac mor anaml ag unwaith bob deufis (ond yn ddim hwyrach na deufis) pe dymunant. Mae hyn yn golygu na allwn eich atgoffa i gyflwyno hawliad. Fodd bynnag, gallech ystyried gosod nodyn yn y dyddiadur ar eich ffôn neu gyfrifiadur i'ch atgoffa o ba bryd mae'r cyfnod hawlio yn dechrau.

Cyflwynais fy hawliad ar ddydd Gwener, arhosais y pedwar diwrnod gwaith, ond nid wyf wedi cael taliad. Beth ddylwn ei wneud?

- 1 Gwiriwch gyda'ch banc/cymdeithas adeiladu
- 2 Gwnewch yn siŵr eich bod wedi dilyn y weithdrefn gywir fel a nodir yn y canllawiau:
<https://www.llyw.cymru/darparwyr-yn-hawlio-taliadau-o-gynnig-gofal-plant-cymru#112056>
- 3 Cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol:
<https://www.llyw.cymru/dylai-darparwyr-gysylltu-ni-am-gymorth-chynnig-gofal-plant-cymru>



Childcare Providers: Tips to receive timely payments

I want to receive payment as fast as possible – when is the best time to claim on the platform?

You can make claims for childcare hours provided under the Childcare Offer from 12:00 each Friday. If you submit a claim on a Friday, you can expect to receive funds into your nominated bank account or building society account **four working days** later, subject to the clearing procedures at your own financial institution

I keep forgetting to submit my claim each week.....

The platform has been designed to be flexible. Childcare providers can submit claims as frequently as once a week and as infrequently as once every 2 months (but no later than 2 months) if they wish. This means we cannot set reminders for you to receive to submit a claim but you could consider setting a local diary marker on your mobile phone or computer to remind you when the claim window opens.

I submitted my claim on a Friday, I waited the four working days, but I haven't received payment. What should I do?

- 1 Check with your bank/building society
- 2 Make sure you have followed the correct procedure as set out in guidance: <https://www.gov.wales/providers-claim-payment-childcare-offer-wales#112056>
- 3 Contact the National Helpline: <https://www.gov.wales/providers-contact-us-help-childcare-offer-wales>

